| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **25 Ebrill 2002** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora , Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Adolygiad o Wasanaethau i Blant ag Anghenion Iechyd Arbennig - y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd** |

**Diben**

1. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud ar hyn o bryd i wella'r gwasanaethau i blant ag anghenion iechyd arbennig.

**Crynodeb**

2. Mae'r papur hwn yn disgrifio'r hyn sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd i wella'r gwasanaethau i blant ag anghenion iechyd arbennig. Darperir y papur hwn er gwybodaeth, er mwyn i'r Pwyllgor allu ystyried rhaglen weithredu Llywodraeth y Cynulliad fel rhan o'i adolygiad.

**Amseru**

3. Nid oes unrhyw faterion penodol o ran amseru.

**Cefndir**

4. Mae'r pwyllgor wedi clywed tystiolaeth gan ystod eang o ffynonellau fel rhan o'i adolygiad. Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn gweithio ar raglen eang i wella gwasanaethau i blant ag anghenion iechyd arbennig, gan gynnwys plant anabl a phlant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol.

5. Ceir crynodeb o'r gwaith y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud ar hyn o bryd yn **Atodiad 1** y papur hwn.

**Cydymffurfio**

6. Mae'r gwaith a ddisgrifir yn Atodiad 1 yn cael ei wneud o dan wahanol bwerau, gan gynnwys y rhai

hynny sy'n deillio o Children Act 1989 [Deddf Plant 1989], NHS Act 1977 [Deddf y GIG 1977], Local Authority Social Services Act 1970 [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970], Health Act 1999 [Deddf Iechyd 1999] a deddfwriaethau perthnasol eraill. Dirprwywyd yr holl bwerau perthnasol i Weinidog y Cynulliad. Nid oes unrhyw fater o reoleidd-dra na phriodoldeb.

**Goblygiadau Ariannol**

7. Mae pob un o'r mentrau a ddisgrifir yn Atodiad 1 yn rhai parhaus a, lle y bo'n briodol, cânt eu hariannu o fewn y Gyllideb ar gyfer 2002-03. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol newydd ar gyfer y Cynulliad. Ymgynghorwyd a'r Is-adran Cynllunio Ariannol a'r Is-adran Rheoli Ariannol Iechyd ynghylch y cyngor hwn ac maent yn fodlon ar ei agweddau ariannol.

**Themâu trawsbynciol**

8. Mae amryw o'r mentrau yn Atodiad 1 yn cael eu gweithredu mewn cydweithrediad clòs â llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol. Rhoddir canllawiau ar gydweithio pan fo angen. Er enghraifft, mae'r rhaglen Plant yn Gyntaf yn cynnwys canllawiau penodol i awdurdodau lleol ar yr angen i gydweithio â'r sector gwirfoddol; ac mae'r Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig yn cydnabod cyfraniad pwysig y mudiadau gwirfoddol.

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor**

10. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth y Cynulliad, ac sy'n cael ei ddisgrifio yn Atodiad 1. Bydd y Pwyllgor am ystyried y mentrau hyn fel rhan o'i adolygiad o wasanaethau i blant ag anghenion iechyd arbennig.

**Enw Cyswllt**

Neil Surman, Yr Is-adran Plant a Theuluoedd (Est. 6844)